

Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda**

My Smile Centre

23 Medi 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk

Ffacs: 0300 062 8387

Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Cyd-destun.....	3
3.	Crynodeb	4
4.	Canfyddiadau	5
	Ansawdd Profiad y Claf	5
	Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol.....	7
	Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	11
5.	Methodoleg	12
6.	Y Camau Nesaf.....	14
	Atodiad A.....	15

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch, a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb

Cwblhaodd AGIC arolygiad yn My Smile Centre yn 118 Stryd Charles, Aberdaugleddau, SA73 2HW ar 23 Medi 2015.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd My Smile Centre yn bodloni'r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau perthnasol eraill.

Rhoddir rhybudd o arolygiadau deintyddol, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu'r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau'n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym ni hefyd yn ystyried sut mae gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn unol â'r safonau a'r canllawiau perthnasol.

Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â'n methodoleg ni yn Adran 5 yr adroddiad hwn.

2. Cyd-destun

Mae My Smile Centre yn darparu gwasanaethau ar gyfer oddeutu 9,300 o gleifion yn ardal Aberdaugleddau, Sir Benfro. Mae'r practis yn ffurfio rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

Mae My Smile Centre yn bractis cymysg sy'n darparu gwasanaethau deintyddol y GIG yn bennaf, yn ogystal â nifer bach iawn o wasanaethau preifat.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys dau ddeintydd, tair nyrs, tri aelod o staff y dderbynfa, ac un rheolwr practis.

Darperir ystod o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol preifat.

3. Crynodeb

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Er inni gael ein sicrhau bod y cyfleusterau clinigol a'r gofal a'r driniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau perthnasol, cawsom fod angen rhai gwelliannau o ran cyffuriau a ddefnyddir mewn achosion brys a gweithdrefnau diogelu cleifion sy'n agored i niwed. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.¹ Roedd hyn yn sicrhau bod yr offer wedi'u sterileiddio'n briodol at ddefnydd y cleifion.

Canfuom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Gallai systemau fod yn gadarnach er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, a gallai'r system hyfforddiant fod wedi'i threfnu'n well.

¹Nod Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yw codi ansawdd gwaith dadheintio mewn gwasanaethau deintyddol gofal sylfaenol.

4. Canfyddiadau

Ansawdd Profiad y Claf

Dyweddodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth roeddent yn ei dderbyn gan y practis deintyddol a'u bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd yr adborth o holiaduron cleifion AGIC yn gadarnhaol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddisbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

"Y practis gorau bues i ynddo erioed. Wedi argymhell hwn i ffrindiau a'r teulu."

"Rydw i'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth a'r deintydd."

"Ers i mi fod yn y practis, maen nhw wedi gwneud i mi deimlo'n gyfforddus iawn – yn glaf pryderus, erbyn hyn mae gen i bob hyder yn fy nhriniaeth."

Gofal gydag urddas

Roedd adborth cleifion yn gyson gadarnhaol. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn gan y practis a'u bod yn teimlo eu bod yn cael croeso gan y staff. Cawsom ein bodloni bod cleifion yn cael eu trin ag urddas a pharch gan dîm y practis.

Gofal amserol

Mae'r practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn derbyn eu triniaeth ddeintyddol mewn modd amserol. Dywedodd mwyafrif y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth aros i weld deintydd.

Roedd system apwyntiad hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw yn ogystal ag ar sail argyfwng, gan alluogi cleifion i gael eu gweld yn gyflym pe bai angen. Nododd dros dri chwarter o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn gwybod sut i gael gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau. Roedd y practis yn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'r rhif cyswllt mewn argyfwng drwy ddarparu taflen wybodaeth i gleifion a oedd yn cynnwys y rhif cyswllt mewn argyfwng a thrwy roi arwydd y tu allan i'r practis, a gwnaethom gadarnhau bod rhif cyswllt yn cael ei roi ar neges peiriant ffôn y practis. Felly, roeddem yn fodlon bod gan y cleifion sawl ffordd o gael gwybodaeth mewn argyfwng.

Cadw'n iach

Roedd gan y practis amrywiaeth o daflenni gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn yr ardaloedd aros, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmegu a chodi ymwybyddiaeth o ganser y geg. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Dywedodd y staff wrthym fod dewisiadau o ran triniaeth yn cael eu trafod gyda'r cleifion, a gwelsom dystiolaeth o hyn wedi ei chofnodi yn nodiadau'r cleifion. Gwnaethom hefyd nodi bod trafodaethau ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmegu wedi'u hysgrifennu yng nghofnodion y cleifion.

Gofal unigol

Roedd gan y practis system ar gyfer casglu safbwyntiau cleifion yn rheolaidd, a gwelsom ganlyniadau holiaduron boddhad diweddar, a oedd wedi cael eu harchwilio, a'r gwelliannau awgrymedig wedi'u nodi.

Gwelsom fod rhan is yn nesg y dderbynfa a oedd yn sicrhau bod cleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn yn gallu derbyn gofal urddasol a oedd yn briodol i'w hanghenion unigol.

Pan wnaethom ofyn ynglŷn â gwneud cwynion, dywedodd bron hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn. Roedd poster cwynion ar gael i gleifion ei ddarllen, ac roedd gwybodaeth yn y daflen i gleifion ynglŷn â sut i leisio pryder/wneud cwyn. Fodd bynnag, mae angen cynnwys manylion cyswllt y cyngor iechyd cymuned lleol yn hon.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis arddangos y broses gwyno/leisio pryder ar gyfer cleifion preifat a'r GIG mewn lle blaenllaw o fewn y practis.

Roedd cofnod canolog ar gyfer cwynion swyddogol, ond nid oedd hwn yn cynnwys unrhyw bryderon/cwynion anffurfiol. Pan wnaethom archwilio'r broses gwyno, roedd yn unol â chanllawiau deintyddiaeth breifat, ond nid oedd yn bodloni gofynion canllawiau "Gweithio i Wella" y GIG.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n unol â chanllawiau cyfredol y GIG.

Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol

Er inni gael ein sicrhau bod y cyfleusterau clinigol a'r gofal a'r driniaeth yn cael eu cynllunio a'u cyflenwi yn unol â'r safonau perthnasol, canfuom fod angen gwneud rhai gwelliannau o ran cyffuriau mewn achos argyfwng ac o ran diogelu cleifion sy'n agored i niwed. Roedd ystafell ddadheintio neilltuedig a oedd yn cydymffurfio â safonau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05. Roedd hyn yn sicrhau bod offer wedi'u sterileiddio'n briodol at ddefnydd y cleifion.

Gofal diogel

Roedd y ddogfennaeth berthnasol ar gael, gan gynnwys dogfennau gwiriadau diogelwch, cynnal a chadw, a phrofi. Roedd yr holl aelodau staff a oedd yn rhaid iddynt ei wneud wedi cwblhau hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio ar-lein. Er bod hyn yn bodloni'r oriau hyfforddi gofynnol, byddai'n fuddiol i staff fynychu'r hyfforddiant wyneb yn wyneb a ddarperir gan Ddeoniaeth Ôl-raddedigion Cymru. Roedd y practis wedi cynnal archwiliadau sicrhau ansawdd ar gyfer y cyfarpar radiograffeg. Roedd hyn yn golygu bod ganddynt systemau ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a'i fonitro'n barhaus.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ar yr hyn a oedd angen ei wneud pe bai argyfwng meddygol. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw bolisi dadebru cyfredol ar waith er mwyn nodi rôl a chyfrifoldeb pob aelod o staff yn glir. Gwnaethom hefyd drafod am storio'r canllawiau achosion argyfwng unigol a'r cyffur gyda'i gilydd. Byddai hyn yn galluogi ymateb diogel ac amserol i sefyllfa argyfwng.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis ddatblygu system ddadebru sy'n unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).

Nid oedd yr un aelod o staff, o'r rhai a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol, wedi'i benodi'n swyddog cymorth cyntaf yn y lleoliad. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym mai hi fydd y swyddog cymorth cyntaf yn y dyfodol ac y bydd yn mynychu'r hyfforddiant perthnasol. Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar dadebru priodol pe bai argyfwng meddygol (llewygu). Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi'i drefnu'n dda gan fod rhaid i staff chwilio mewn gwahanol flychau er mwyn dod o hyd i'r cyfarpar priodol. Trafodwyd hyn â'r prif ddeintydd ar y pryd. Cytunwyd y byddai'r practis yn sicrhau bod cyfarpar ar gael yn haws. Ar adeg yr arolygiad, roedd bron pob aelod o staff (ar wahân i un aelod o staff a oedd wedi bod ar ei wyliau) wedi cwblhau hyfforddiant dadebru o fewn y

flwyddyn ddiwethaf, fel yr argymhellir gan y Cyngor Dadebru (DU). Roedd hyn yn golygu bod y staff wedi cael y cyfle i ddysgu sut i reoli argyfyngau meddygol.

Roedd meddyginiaethau mewn achos argyfwng wedi'i storio mewn lleoliad diogel mewn lle priodol, ond byddai'n fuddiol i'r cyffuriau a'r algorithmau (canllawiau ynglŷn â'u gweinyddu) yn cael eu storio gyda'i gilydd. Byddai hyn yn galluogi ymateb diogel ac amserol pe bai argyfwng yn digwydd. Roedd system gadarn ar waith i fonitro dyddiadau dod i ben y cyffuriau. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd system ar waith er mwyn gwirio bod y silindrau ocsigen yn llawn neu fod y diffibriliwr wedi'i wefru'n llawn. Cafodd hyn ei amlygu i'r prif ddeintydd a rheolwr y practis.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r practis sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i wirio'r silindrau ocsigen a'r diffibriliwr.

Nid oedd rheolwr y practis yn ymwybodol o'r system ar gyfer ymateb i unrhyw adweithiau niweidiol i gyffuriau nac adrodd amdanynt. Gwnaethom drafod hyn â'r prif ddeintydd, a sicrhawyd bod y ddogfen berthnasol ar gael tra oeddem yn y practis.

Roedd gwastraff yn cael ei drin, ei storio a'i waredu'n briodol yn y practis, ac roedd contract cyfredol ar waith i waredu â gwastraff clinigol. Roedd polisi a gweithdrefn ar waith ar gyfer trin mercwri'n ddiogel.

Roedd gan y practis dwy ystafell gyfagos neilltuedig ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol (offer wedi'u defnyddio yn y naill ystafell a rhai glân yn y llall) a oedd yn bodloni'r safonau a nodir yng nghanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (Diwygiad 1). Gwelsom fod blychau wedi'u selio'n cael eu defnyddio i gludo offer wedi'u defnyddio i mewn i'r ystafell, ac roedd offer glân wedi'u gosod mewn pecynnau wedi'u selio a'u dyddio cyn iddynt adael yr ystafell ddadheintio. Roedd yr holl offer a wiriwyd o fewn eu dyddiad, ac roedd system fewnol ar waith i wirio bod yr offer yn cael eu defnyddio o fewn amser penodol. Roedd hyn yn golygu bod prosesau addas ar waith i amddiffyn cleifion rhag croes-heintio yn hyn o beth. Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer glanhau offer yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Roedd hyn yn cynnwys gwiriadau safonol a oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau ac ar ddiwedd bob dydd. Gwelsom fod staff a oedd yn cynnal gweithdrefnau dadheintio wedi derbyn hyfforddiant ar y testun hwnnw.

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol ym mhob un o'r ystafelloedd triniaeth, a gweld eu bod yn lân ac yn drefnus a'u bod yn cynnwys y cyfarpar perthnasol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r staff. Roedd niferoedd digonol o offer

deintyddol a chyfarpar, i gyd mewn cyflwr da, wedi'u storio'n ddiogel yn yr ystafelloedd triniaeth. Gwelsom fod y cyflenwadau o offer untro a chyfarpar diogelu i'r cleifion a'r staff eu gwisgo yn ystod y sesiwn driniaeth yn ddigonol.

Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y cywasgwyr (dyfais sy'n rhoi cyflenwad o aer glân i bweru offer llaw deintyddol ac amryw offer deintyddol eraill) wedi'u cynnal a'u cadw a'u harchwilio yn unol â'r gofynion. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal i wirio bod dyfeisiau trydanol bach yn addas i'r diben ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn plant. Roedd polisi amddiffyn plant ar waith, ond nid oedd yn unol â chanllawiau Cymru gyfan. Roedd y prif ddeintydd wedi cwblhau hyfforddiant amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed, ond nid oedd aelodau eraill o'r staff wedi mynychu hyfforddiant ac nid oedd unrhyw bolisi na gweithdrefn i roi canllawiau i staff ar sut i ymdopi ag unrhyw faterion ynglŷn â diogelu oedolion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod polisiau amddiffyn plant yn unol â'r canllawiau lleol.

Dylai'r practis sicrhau bod pob aelod o staff yn derbyn hyfforddiant a bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau i ymdopi â materion diogelu oedolion.

Gofal effeithiol

Yn gyffredinol, roeddem o'r farn bod angen gwella rhaglen archwilio'r practis er mwyn sicrhau bod y gofal a ddarperir yn effeithiol. Nid oedd y practis wedi cynnal archwiliad perthnasol ar reoli heintiau yn y ddwy flynedd ddiwethaf. Dywedodd y prif ddeintydd wrthym y byddai'r practis yn cynnal archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru er mwyn monitro cydymffurfiad parhaus â gofynion rheoli heintiau, ac i sicrhau bod offer yn lân ac yn ddiogel i'w defnyddio gan gleifion.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad gan gymheiriaid gyda phractis deintyddol arall yn Aberdaugleddau. Mae hyn yn enghraifft o arfer nodedig lle mae tîm deintyddol arall yn archwilio cofnodion ac archwiliadau deintyddol er mwyn nodi meysydd i'w gwella.

Nid oedd y practis ar yr adeg honno yn cynnal archwiliad ar gofnodion radiograffeg y cleifion. Mae monitro'r dogfennau'n hanfodol er mwyn sicrhau bod y cyfiawnhad dros gynnal sganiau pelydr-X yn cael ei gofnodi, ynghyd â'r hyn sy'n cael ei ganfod. Hefyd, mae'n rhaid graddio'r sganiau pelydr-X, ac archwilio'r graddau er mwyn sicrhau bod ansawdd y lluniau'n foddhaol. Cynhaliwyd yr archwiliad sicrhau ansawdd diwethaf yn 2013, ac mae'r canllawiau cyfredol yn awgrymu y dylid ei gynnal dwywaith bob blwyddyn.

Gwnaethom edrych yn fanwl ar sampl o gofnodion cleifion. Roedd y safon cadw cofnodion yn dda, ac nid oedd angen ei gwella ond mewn un maes, sef bod angen i'r hanesion meddygol gael eu llofnodi gan y deintydd a'r claf fel ei gilydd er mwyn dangos bod unrhyw newidiadau wedi cael eu trafod.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Gwelsom dîm staff ymroddedig a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu swyddi. Gallai systemau fod yn gadarnach er mwyn sicrhau canllawiau clir ar gyfer y staff, a gallai'r amserlen hyfforddiant fod wedi'i threfnu'n well.

Roedd yna reolwr practis a oedd yn goruchwyllo'r gwaith o redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd gan unigolion swyddi penodol, ac roeddent yn cydweithio'n rhwydd iawn fel tîm. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu gwaith.

Roedd y deintyddion a'r nyrsys deintyddol wedi eu cofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac roedd ganddynt contractau cyflogaeth. Nid oedd gan un deintydd dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd wedi'i dyddio o fewn y tair blynedd diwethaf, yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwnaethom drafod hyn gyda'r prif ddeintydd a rheolwr y practis, a chawsom ein bodloni y byddai hyn yn cael sylw priodol ar unwaith.

Gwelsom fod tystysgrifau'r deintyddion wedi'u harddangos yn y practis, a oedd yn cadarnhau cofrestriad y deintyddion gydag AGIC, fel sy'n ofynnol dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Gwelsom gofnodion imiwnedd hepatitis B ar gyfer pob aelod o staff clinigol. Dywedodd rheolwr y practis fod y practis yn ymwybodol o'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol a gynigir gan y bwrdd iechyd.

Gwelsom dystiolaeth bod staff clinigol wedi cyflawni datblygiad proffesiynol parhaus, er nad oedd trefniant y rhaglen hyfforddi yn gadarn ac nad oedd y llyfr cofnodion wedi cael ei gwblhau ers cryn amser. Gwelsom ffeil gynefino a oedd yn cynnwys y wybodaeth berthnasol ar gyfer staff a oedd yn newydd i'w swydd.

Yr hyn sydd angen ei wella

Mae angen i'r practis gael amserlen hyfforddiant sy'n amlinellu'r rhaglen sydd wedi'i chynllunio.

Roedd cyfarfodydd staff ffurfiol wedi eu cofnodi a oedd yn dangos inni enghreifftiau o wersi a ddysgwyd a hefyd yn cynnwys elfennau addysgol perthnasol.

Roedd system ar waith ar gyfer arfarniadau ffurfiol, a gwelsom fod yr un diweddaraf yn 2014. Mae arfarniadau'n ffordd bwysig o roi cymorth ffurfiol i staff

wrth iddynt ystyried eu gwaith eu hunain, ac o nodi unrhyw anghenion o ran cymorth a datblygiad proffesiynol.

5. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau o ysbytai yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd, maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

Ffigur 1



Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008² a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat

² <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made/welsh>

(Cymru) (Diwygio) 2011.³ Lle bo'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, fel Safonau ar gyfer y Tîm Deintyddol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau gyda staff, gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (lle bo'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

³ <http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made/welsh>

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn My Smile Centre yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i'r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i'r problemau a nodwyd yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig, ac wedi'u hamseru. Yn gyffredinol, dylai'r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC am y materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella'r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai'r practis roi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

Atodiad A

Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella

Practis: My Smile Centre

Dyddiad yr Arolygiad: 23 Medi 2015

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd Profiad y Claf					
Tudalen 6	Mae angen i'r practis arddangos y broses gwyno/leisio pryderon ar gyfer cleifion preifat a'r GIG mewn lle blaenllaw o fewn y practis.	Safonau lechyd a Gofal 2.1			
Tudalen 6	Dylai'r practis sicrhau bod y weithdrefn gwyno'n unol â chanllawiau cyfredol y GIG.	Safonau lechyd a Gofal 6.3; canllawiau "Gweithio i Wella" y			

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		GIG 2011			
Cyflenwi Gwasanaeth Diogel ac Effeithiol					
Tudalen 7	Mae angen i'r practis ddatblygu polisi dadebru sy'n unol â chanllawiau'r Cyngor Dadebru (DU).	Safonau lechyd a Gofal 2.9 Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981			
Tudalen 8	Dylai'r practis sicrhau bod mesurau priodol yn cael eu cymryd i wirio'r silindrau ocsigen a'r diffibriliwr.	Safonau lechyd a Gofal 2.9 Rheoliadau lechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981			
Tudalen 9	Mae angen i'r practis sicrhau bod polisiau amddiffyn plant yn unol â chanllawiau lleol.				

Rhif y dudalen	Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad / Safon	Cam gweithredu'r practis	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Tudalen 9	Dylai'r practis sicrhau bod y staff yn derbyn hyfforddiant a bod ganddynt bolisiau a gweithdrefnau sy'n rhoi canllawiau iddynt ynglŷn â diogelu oedolion.	Safonau lechyd a Gofal 2.7 CDC 4.3.3, 8.5.			
Tudalen 10	Mae angen i'r practis gynnal archwiliad rheoli heintiau Deoniaeth Cymru yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol lechyd Cymru 01-05.	Safonau lechyd a Gofal 3.1 Archwiliad WHTM 01-05			
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth					
Tudalen 11	Mae angen i'r practis gael amserlen hyfforddiant sy'n amlinellu'r rhaglen wedi'i chynllunio.	Safonau lechyd a Gofal 7.1			

Cynrychiolydd y Practis:

Enw (llythrennau bras):

Teitl:

Dyddiad: